



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: Dydd Llun, 18 Ebrill 2012

Rhif Union: 01824706141

ebost: [dcc\\_admin@denbighshire.gov.uk](mailto:dcc_admin@denbighshire.gov.uk)

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 24 EBRILL 2012** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

## AGENDA

### 1 YMDDIHEURIADAU

### 2 DATGANIAD O FUDDIANT

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes sydd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### 3 MATERION BRYD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20fed Mawrth 2012 [copi'n amgaeedig].

**5 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 11 - 28)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd J Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Effeithlonrwydd (copi'n amgaeedig) sy'n nodi rhagolygon diwedd y flwyddyn ar gyfer cyllideb refeniw a pherfformiad mewn perthynas â strategaeth y gyllideb ar gyfer 2011/12.

**6 CREU CRONFA WADDOL GYMUNEDOL SIR DDINBYCH** (Tudalennau 29 - 34)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd H.H. Evans, Arweinydd (copi'n amgaeedig) sy'n rhoi gwybodaeth ar nifer o gronfeydd ymddiriedolaeth segur neu aneffeithiol a'u hasedau cysylltiedig a weinyddir gan y Cyngor, ac argymell ffordd ymlaen i ryddhau'r arian o'r cronfeydd hyn.

**7 ADRODDIAD TERFYNU BWRDD POBL A LLEOEDD** (Tudalennau 35 - 58)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd P.A. Dobb, Aelod Arweiniol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (copi'n amgaeedig) sy'n manylu'r llwyddiannau a'r hyn a ddysgwyd gan Fwrdd Pobl a Lleoedd.

**8 RHAGLEN WAITH Y CABINET I'R DYFODOL** (Tudalennau 59 - 60)

Derbyn y Rhaglen amgaeedig o Waith y Cabinet i'r Dyfodol a chydabod y cynnwys.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym mharagraffau 13 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf) yn cael ei datgelu.

**9 PRYNU 25/26 RHODFA'R GORLLEWIN, Y RHYL TRWY ORCHYMYN  
PRYNIANT GORFODOL (Tudalennau 61 - 68)**

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd P.J. Marfleet, Aelod Arweiniol Moderneiddio'r Cyngor (copi'n amgaeëdig) ar ddefnyddio trefniadau Pryniant Gorfodol i brynu'r eiddo a elwir 25/26 Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl i bwrpas ailddatblygu.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Pauline Dobb  
Hugh Evans  
Sharon Frobisher  
Morfudd Jones

Paul Marfleet  
David Thomas  
Julian Thompson-Hill  
Eryl Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun dydd Mawrth 20 Mawrth 2012 am 10.00 a.m.

## PRESENNOL

Cynghorwyr Pauline Dobb, Hugh Evans (Cadeirydd), Morfudd Jones, Paul Marfleet, David Thomas, Julian Thompson-Hill ac Eryl Williams

**Arsyllwyr:** Cynghorwyr W.L. Cowie, M.L. Davies, G.C. Evans, R.L. Feeley a H.L. Jones

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Trawsnewid Busnesau ac Adfywio (BJ), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Demograffeg, Lles a Chynllunio (SE), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau a Dysgu (HW), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), Pennaeth Priffyrdd a Seilwaith (SD), Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol (SP), Rheolwr Adfywio Strategol (MD), Prif Swyddog Strategaeth Adfywio a Buddsoddi (EW), Rheolwr Gwella Corfforaethol (TW), Rheolwr Eiddo (DC), Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (RH) a Gweinyddwr Pwyllgor (SW).

### 1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd S. Frobisher

### 2 DATGANIADAU BUDD

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad budd nac un oedd yn creu rhagfarn.

### 3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw fater bryd.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2012.

#### **Eitem 9 – Cynllun Tref Llanelwy**

Tudalen 5 – Nododd y Rheolwr Adfywio Strategol fod y Cynghorydd Richard Jones wedi gofyn am newid y cyfeiriad at y drafodaeth ar yr OpTIC Technium i ddarllen

- byddai cyfeiriad yn cael ei wneud at y ffaith fod yr OpTIC Technium wedi'i leoli yn ward Bodelwyddan a bod y Parc Busnes hefyd yn cynnwys rhannau o wardiau Bodelwyddan a Threfnant

Tudalen 7 – Nododd y Cynghorydd P.A. Dobb hefyd y dylai'r adroddiad am y drafodaeth am Sinema Scala adlewyrchu fod yr Aelod Arweiniol wedi dweud y byddai'r arian ychwanegol a drafodwyd yn rhoi'r prosiect mewn perygl.

### **Materion yn Codi**

Tudalen 7 - Cyfeiriodd y Cynghorydd Dobb at yr adroddiad ar Sinema Scala y disgwyli'd y byddai ar gael i'r Cabinet ei ystyried yn y cyfarfod hwn ond dywedwyd wrth y Cabinet nad oedd y wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael. Felly ni fu'n bosibl cyflwyno adroddiad. Dywedodd yr Arweinydd fod rheolwyr Sinema Scala'n ymwybodol eu bod wedi gofyn am adroddiad ac y byddai'r Cabinet yn disgwyl iddyn nhw gyflwyno'r adroddiad yn ystod y 7-10 diwrnod canlynol.

**PENDERFYNWYD**, o ystyried yr uchod, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2012 fel cofnod cywir a bod yr Arweinydd yn eu harwyddo.

## **5 CYNLLUN TREF CORWEN**

Cyflwynodd y Cynghorydd D.A.J. Thomas yr adroddiad oedd yn gofyn i'r Cabinet gefnogi cynllun tref arfaethedig Corwen. Cafwyd manylion y broses ymgynghori ar gyfer y tri chynllun tref i'w hystyried yn y cyfarfod y dywedwyd iddo gynnwys gweithdy ar gyfer aelodau ar 14 Mawrth 2012 i drafod pwrpas a strwythur y cynlluniau tref. Ystyriwyd hwy hefyd yng nghyfarfodydd:

- Briffio'r Cabinet– 5 Ebrill 2011
- Uwch Dîm Arwain – 19 Mai 2011
- Pwyllgor Craffu Cymunedau – 27 Hydref 2011

Gwahoddwyd y Penaethiaid Gwasanaethau i gymryd rhan ym mhob cam o ddatblygiad y cynlluniau ac ystyriwyd cynllun tref Corwen gan aelod lleol ward Corwen ac aelodau Cyngor Cymuned Corwen a'i drafod gyda chynrychiolwyr Partneriaeth Cymuned De Sir Dinbych a Chymdeithas Busnes Corwen a'r Ardal. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus hefyd ar wefan y Cyngor ac yn siop un alwad y dref. Roedd yr ymgynghoriad wedi rhoi llwyfan i fynegi syniadau ac wedi arwain at newidiadau i'r cynllun gan gynnwys rhoi mwy o bwyslais i gymeriad 17eg Ganrif y dref.

Gofynnodd Arweinydd y Cyngor am ddiweddariad ar y cynnydd gyda Commerce House a dywedodd y Rheolwr Adfywio Strategol (SRM) fod rhybudd wedi'i roi i'r perchennog ond eu bod yn cydnabod yr her o gael hyd i ateb tymor hir fel blaenoriaeth. Gofynnodd y Cynghorydd Dobb a oedd unrhyw gyfleoedd posibl i Gorwen fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB) a dywedodd yr SRM fod y rhan fwyaf o Gorwen o fewn yr AONB, a bod y cyfleoedd yr oedd hyn yn eu cynnig yn cael eu cydnabod ac y bydden nhw'n cael eu hymchwilio ymhellach.

Nododd y Cynghorydd H.L. Jones, Aelod Lleol Corwen, y derbyniad positif a gafodd cynllun y drefn a dywedodd fod cynllun y dref yn dweud wrth y gymuned leol fod gan Gyngor Sir Dinbych ddiddordeb gweithredol yn ffyniant y dref.

**PENDERFYNWYD**, bod y Cabinet yn cymeradwyo Cynllun Tref Corwen o ystyried sylwadau'r aelodau.

## **6 CYNLLUN TREF LLANGOLLEN**

Cyflwynodd y Cyngorydd D.A.J. Thomas yr adroddiad oedd yn gofyn i'r Cabinet gefnogi cynllun tref arfaethedig Llangollen. Eglurodd y Rheolwr Adfywio Strategol fod Cyngor Tref Llangollen wedi datblygu ei gynlluniau ei hun ar gyfer y dref a'i fod wedi cyfarfod ag Is-bwyllgor Cyngor y Dref i uno'r ddwy ddogfen mewn un cynllun. Roedd yr ymgynghoriad wedi esgor ar nifer o syniadau diddorol ac uchelgeisiol ar gyfer Llangollen gan gynnwys cynigion ar gyfer cyflwyno band eang ffeibr optig, cynllun garddio a threfniadau i rannu lle ar Stryd y Castell.

Roedd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd drwy wefan y Cyngor wedi amlygu materion fel trethi domestig uchel; negyddiaeth tuag at gynllunio ar gyfer archfarchnad yn y dref; gwrthwynebiad i drosglwyddo Neuadd y Dref i Gyngor y Dref ac anghymeradwyaeth mewn rhai ardaloedd i ffocws Llangollen ar ei heconomi nos.

Dywedodd y Cyngor P.A. Dobb fod diffyg persbectif Cyngor Sir Dinbych ar gynllun y dref a dywedodd fod cynllun y dref yn rhoi cyfle i ddatblygu syniadau i fwyhau'r defnydd o gyfleusterau'r Cyngor yn Llangollen fel y Pafiliwn a Phlas Newydd. Ychwanegodd y Cyngorydd P.J. Marfleet fod Llangollen mewn lle da ar y ffordd i Ogledd-orllewin Cymru ac y dylid ymelwa ar hyn drwy gynllun y dref gan roi mwy o bwyslais ar y dewis o lety oedd ar gael, fel gwestai heb eu graddio a gwerysilloedd. Nododd y Cyngorydd M.M. Jones fod yr Eisteddfod yn gyfle gwych i ddenu ymwelwyr i Langollen ac y dylid rhoi llawer o greddyd i'r trefnwyr. Dywedodd y Cyngorydd Jones hefyd mai cymharol ychydig o Aelodau lleol y trefi perthnasol oedd yn bresennol yn y cyfarfod o'r Cabinet i glywed y drafodaeth ar gynlluniau'r trefi ac felly bod cyfle wedi'i golli.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod Cyngor Tref Llangollen yn grŵp oedd yn edrych ymlaen a'i fod ef yn teimlo'n gadarnhaol iawn wrth drosglwyddo perchnogaeth cynlluniau'r dref i'r cynghorau tref unigol.

**PENDERFYNWYD**, cymeradwyo Cynllun Tref Llangollen o ystyried sylwadau'r aelodau.

## **7 CYNLLUN TREF PRESTATYN**

Cyflwynodd y Cyngorydd D.A.J. Thomas yr adroddiad oedd yn gofyn i'r Cabinet gefnogi cynllun tref arfaethedig Prestatyn. Yn yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd drwy wefan y Cyngor, cafwyd yr awgrym y dylid trosglwyddo asedau'r Cyngor i'r gymuned yn hytrach na chynnal arwerthiant cyhoeddus; ac argymhelliad i roi darlun llawnach o Brestatyn o bersbectif cydraddoldebau.

Gofynnodd y Cyngorydd J. Thompson-Hill am i'r cynllun gael ei ddiwygio i adlewyrchu bod y cyfraddau troseddau uwch na chyfartaledd y Sir yn ward Dwyreiniol Prestatyn yn cael eu priodoli i achlysur blynyddol a gynhelir ar safle Pontins. Gofynnodd y Cyngorydd Thompson-Hill hefyd am ail-eirio'r cyfeiriad at

Brestatyn fel “lle nad yw’n hawdd ei gyrraedd ar y ffyrdd” oherwydd gallai geiriau o’r fath atal buddsoddi posibl.

Diolchodd yr Arweinydd i’r tîm Adfywio am eu gwaith da a dywedodd fod yr adroddiadau’n bositif i’w cymunedau ac y dylen nhw annog hyder busnesau’r sector preifat. Ychwanegodd yr Arweinydd ei fod yn gobeithio y byddai’r cynlluniau trefi’n cael eu datblygu’n awr gan y Cyngor newydd.

Diolchodd y Cyngorydd Thomas i’r Cabinet am eu sylwadau ar y cynlluniau trefi unigol. Eglurodd fod datblygu’r cynlluniau trefi wedi bod yn broses hir a’i fod yn fodlon gyda’r deiliant ond y byddai’n rhaid i’r Grwpiau Aelodau Ardaloedd lleol eu datblygu ac adrodd yn ôl yn rheolaidd i sicrhau bod gweithredu arnyn nhw.

**PENDERFYNWYD**, bod y Cabinet yn cymeradwyo Cynllun Tref Prestatyn o ystyried sylwadau’r aelodau.

## **8 MONITRO PERFFORMIAD YN ERBYN Y CYNLLUN CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad oedd yn rhoi diweddariad o berfformiad y Cyngor yn erbyn y Cynllun Corfforaethol. Eglurwyd ei bod wedi bod yn broses heriol i ganfod meysydd ar gyfer gwella ac i gydnabod blaenoriaethau ond bod y Cynllun Corfforaethol wedi gwneud monitro perfformiad yn llawer haws. Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn fodlon gyda’r gwelliant a welwyd yn yr Adran Priffyrdd ac yn arbennig yn yr Adran Addysg a nododd y gwaith positif a wnaed o safbwynt demograffeg ac adfywio, ond cydnabu’r anhawster wrth wella’r meysydd hyn o gofio’r cyd-destun economaidd cenedlaethol. Pwysleisiwyd y byddai’n hawdd i’r gwelliannau a gyflawnwyd ddirywio felly dylid cadw ffocws ar berfformiad er mwyn cynnal safonau uchel.

Hysbysodd y Rheolwr Gwella Corfforaethol y Cabinet fod elfennau newydd wedi’u hychwanegu at yr adroddiad yn dilyn nifer o geisiadau gan gynnwys ychwanegu deiliant yn ymwneud â Diogelu ac Amddiffyn Plant ar gais Swyddfa Archwilio Cymru ac ychwanegu Cytundeb Deiliant ar gais Llywodraeth Cymru (LIC).

Tynnodd y Cyngorydd P.A. Dobb sylw’r Cabinet at y dangosydd sy’n mesur “y % o atgyfeiriadau i ddiogelu oedolion a gwblhawyd lle mae’r risg wedi’i reoli” i nodi bod y targed 95% wedi’i osod fel gobaith corfforaethol a bod y 87.2% a gyflawnwyd mewn gwirionedd yn llawer uwch na tharged y gwasanaeth ei hun o 80% ac felly nid oedd y statws ‘Coch’ yn adlewyrchiad cywir o’r safonau oedd yn cael eu cyflawni. Dywedodd y Cyngorydd Dobb fod hyn yn amlygu’r broblem o gymharu targedau y gellir eu cyflawni i’r targedau corfforaethol oedd wedi’u gosod ac y dylid ystyried y targedau perfformiad a osodwyd gan awdurdodau eraill wrth osod targedau corfforaethol. Soniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Demograffeg, Lles a Chynllunio’r anhawster wrth fesur perfformiad mewn modd meintiol, yn arbennig mewn perthynas â diogelu oedolion bregus lle nad yw’r ffigyrau’n dweud y stori lawn. Ychwanegodd y Cyngorydd M.M. Jones fod y



targedau'n anodd eu cyflawni ond bod y ffaith bod gwelliannau'n digwydd yn bwysig.

Dywedodd y Cynghorydd P.J. Marfleet fod y statws 'RAG' negyddol o safbwynt Deilliant 9: Roedd llai o risg o lifogydd i eiddo oherwydd bod LIC wedi penderfynu yn erbyn darparu cymorth ariannol i Gynllun Amddiffyn Corwen rhag Llifogydd a bod cyrraedd y targedau o fewn y Deilliant hwn y tu allan i reolaeth y Cyngor. Rhybuddiodd y Cynghorydd Marfleet hefyd y gallai'r ffaith bod Sir Ddinbych yn cael ei hystyried yn gyffredinol fel ardal risg uchel o lifogydd arwain at anawsterau i drigolion gael yswiriant tŷ. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd a Seilwaith y byddai'r adolygiad yn rhoi mwy o wybodaeth am hyn a nododd y Rheolwr Gwella Corfforaethol y dylid rhoi dangosyddion yn dangos statws RAG 'Coch' yng nghyd-destun yr adroddiad gan gydnabod nad yw statws negyddol bob amser yn golygu perfformiad gwael. Ychwanegodd y Cynghorydd D.A.J. Thomas fod Pont Harbwr y Foryd hefyd yn wynebu amgylchiadau tebyg ac y byddai'n parhau i gofrestru perfformiad negyddol yn erbyn ei ddangosyddion er waethaf y ffaith bod y prosiect yn sicr yn ymarferol.

Nododd y Cynghorydd J. Thompson-Hill hefyd mai ychydig o berthynas oedd rhwng y dangosydd sy'n ymwneud â'r nifer o bobl sy'n cael gwytodaeth drwy ddulliau electronig â lleihau'r risg o lifogydd ac nad oedd ei statws 'RAG' Coch yn dangos unrhyw beth o werth. Gofynnodd y Cynghorydd Thompson-Hill a oedd unrhyw le i adolygu'r dangosyddion o ystyried nad oedd rhai o'r dangosyddion yn berthnasol yn uniongyrchol a dywedwyd wrtho y byddai'r dangosyddion yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac y byddai'r angen am i'r ddogfen fod yn synhwyrol ac yn gyraeddadwy yn golygu y gallai fod yn angenrheidiol diwygio rhai Deilliannau'n sylweddol.

Cytunodd yr Arweinydd y byddai'n rhaid i'r dangosyddion fod yn fwy ymarferol i fod yn effeithiol. Ychwanegodd yr Arweinydd y byddai mewnbyn yr Aelodau i ddatblygu'r dangosyddion yn fuddiol a mynegodd ei gefnogaeth i sefydlu gweithgor gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad i fonitro'r gwaith hwn.

Dywedodd y Rheolwr Gwella Corfforaethol fod y defnydd o ddangosyddion blynyddol yn golygu bod rhai problemau'n cael eu gweld yn gymharol hwyr ac y byddai'r broses yn fwy effeithiol petai dangosyddion yn cael eu mesur yn chwarterol.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol ac yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu arfaethedig i ddelio â'r materion a nodwyd o fewn yr adroddiad, o ystyried sylwadau'r aelodau.

## **9 CYMERADWYAETH I GYTUNDEB PARTNERIAETH NMWTRA**

Cyflwynodd y Pennaeth Priffyrdd a Seilwaith (HoHI) yr adroddiad yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet i barhau gyda'i gyfranogiad yn Asiantaeth Cefnffordd Gogledd a Chanolbarth Cymru a chymeradwyaeth i fod yn rhan o'r Cytundeb Partneriaeth newydd mewn egwyddor. Cyflwynwyd copi drafft o'r Cytundeb

Partneriaeth newydd fyddai'n awr yn ymgorffori Cynghorau Sir Ceredigion a Phowys ac yn tynhau gweithdrefnau ar gyfer delio â risgiau rhwng yr awdurdodau partner. Fel arall, roedd yr un peth â'r cytundeb blaenorol. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau na fyddai unrhyw effaith ariannol sylweddol o beidio â pharau â'r bartneriaeth.

Dywedodd y Cynghorydd E.W. Williams ei bod yn bosibl bod gan y swyddogion oedd yn gweithio ar y prosiect y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ond nad oedd yr Aelodau'n ymwybodol o ba mor dda roedd y bartneriaeth wedi bod yn perfformio oherwydd nad oedd cyfarfod ffurfiol wedi'i gynnal am ddwy flynedd. Awgrymwyd y dylai'r bartneriaeth gyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Cynghorau oedd yn cymryd rhan i sicrhau monitro effeithiol a chytunodd yr HoHI y gellid hyrwyddo hyn. Gofynnodd y Cynghorydd P.A. Dobb lir Cynghorau dderbyn rhaglen waith ymlaen y bartneriaeth i helpu i ddilyn y gwaith oedd yn cael ei wneud. Cytunodd yr HoHI i hyn hefyd.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn ymddangos bod mwy o fuddsoddiad yn Ne Cymru na gweddill Cymru a gofynnodd sut roedd yr arian yn cael ei ddyrannu. Eglurodd yr HoHI fod penderfyniadau ariannu'n cael eu gwneud ar lefel uwch na bwrdd NMWTRA ac mae rheoli'r gwaith yn unig ar ôl cael y dyraniad oedd y bwrdd er eu bod yn dweud bod Gogledd Cymru wedi derbyn buddsoddiad sylweddol.

#### **PENDERFYNWYD –**

- a) *bod y Cabinet yn cefnogi'r argymhellion i fod yn rhan o'r Cytundeb Partneriaeth newydd; a*
- b) *bod NMWTRA i ddarparu adroddiadau a rhaglenni gwaith ymlaen i'r Cabinet bob 6 mis i sicrhau monitro effeithiol.*

#### **10 RHAGLEN GWAITH YMLAEN Y CABINET**

Cyflwynodd y Cynghorydd H.H. Evans Raglen Gwaith Ymlaen y Cabinet i'w hystyried a chefnogwyd hi gan y Cabinet heb unrhyw newidiadau.

**PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith Ymlaen y Cabinet.

#### **11 DIWEDDARIAD O'R STRATEGAETH CEFNOGI POBL A CHYNLLUN GWEITHREDOL 2012 – 13**

Cyflwynodd y Cynghorydd P.A. Dobb yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r newidiadau a wnaed i Strategaeth Cefnogi Pobl 2012 i 2014 a Chynllun Gweithredol Cefnogi Pobl 2012/13 cyn i'r cynlluniau gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Eglurwyd bod y Strategaeth Cefnogi Pobl 2011-14 yn amlinellu blaenoriaethau strategol rhaglen Cefnogi Pobl Sir Ddinbych fel fframwaith ar gyfer dyraniad adnoddau refeniw ac amlinellodd Gynllun Gweithredol Cefnogi Pobl 2012/13 yr oedd Llywodraeth Cymru'n ei fynnu bob blwyddyn. Yn dilyn ymgynghoriad gwnaed

nifer o newidiadau i'r 'camau a fwriadwyd' ar gyfer 2012-14 (manylion yn Atodiad 1 yr adroddiad) oedd angen cymeradwyaeth y Cabinet.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cytuno â'r newidiadau i'r Strategaeth Cefnogi Pobl 2012 i 2014 a Chynllun Gweithredu Cefnogi Pobl 2012/13.

## **12 EITHRIO TENDR AR GYFER TROSSLWYDDO CONTRACTAU GWASANAETHAU CEFNOGI POBL O LYWODRAETH CYMRU I GYNGOR SIR DINBYCH**

Cyflwynodd y Cynghorydd P.A.Dobb yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i eithrio contractau newydd am wasanaethau a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy Grant Refeniw Cefnogi Pobl (SPRG) o'r angen am dendro adeg trosglwyddo i Dîm Cefnogi Pobl y Cyngor drwy'r Grant Rhaglen Cefnogi Pobl. Eglurwyd y contractau ar gyfer Cefnogi Pobl eu bod ar hyn o bryd yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ond y byddai hyn yn trosglwyddo i Gyngor Sir Dinbych yn ystod 2012-13.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo'r eithriad o'r broses dendro ar gyfer trosglwyddo contractau Gwasanaethau Cefnogi Pobl o Lywodraeth Cymru i Dîm Cefnogi Pobl y Cyngor.

## **RHAN II**

### **13 EITHRIO TENOR AR GYFER CONTRACT TAI Â CHYMORTH SEASHELLS**

Cyflwynodd y Cynghorydd P.A. Dobb yr adroddiad cyfrinachol yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i eithrio contract tai â chymorth Seashells o'r angen am dendro.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo'r eithriad o'r broses dendro ar gyfer contract tai â chymorth Seashells.

### **ADRODDIAD ARIANNOL 2011 - 2012**

Cyflwynodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi diweddariad o'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllideb y cytunwyd arni. O gofio bod yr Adroddiad Ariannol yn cyfaddawdu elfennau Rhan 1 a Rhan 2, er budd ymarferoldeb, addaswyd trefn ystyried yr adroddiadau ac felly trafodwyd yr eitem hon cyn Eitem 13. Cyflwynwyd hanner cyntaf yr adroddiad mewn sesiwn agored.

Nododd y Cynghorydd Thompson-Hill fod y rhagfynegiad diweddaraf o'r gyllideb refeniw wedi rhagweld tanwariant net o £846k ar wasanaethau'r Cyngor a gorwariant o £505k ar gyfer ysgolion. Cafodd y Cabinet ddiweddariad hefyd o'r Prif Brosiectau Cyfalaf.

## **RHAN II**

Adroddiad cyfrinachol oedd yr Atodiad i'r Adroddiad Ariannol yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol i brynu safle. Symudodd y cyfarfod i mewn i Ran 2 i ystyried yr agwedd hon o'r adroddiad. Rhoddodd y Cyngorydd Thompson-Hill fanylion y safle, sut byddai prynu'r safle o fudd i'r Cyngor a chynnig ar gyfer prynu'r safle.

Cytunodd yr Arweinydd fod y rhesymeg dros brynu'r safle'n rhesymegol ac y byddai'n arbed arian y Cyngor er mwyn ei wario'n fwy effeithiol. Gofynnodd y Cyngorydd E.W. Williams sut byddai arian o rentu'r adeilad yn cael ei ddefnyddio ac a fyddai'n cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau. Dywedodd y Cyngorydd Thompson-Hill fod arbedion yn debygol o gyfrif tuag at dargedau effeithiolrwydd yn hytrach na'u bod yn cael eu hail-fuddsoddi'n benodol.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet –

a) yn nodi'r sefyllfa ariannol bresennol; ac

b) yn cymeradwyo argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol i brynu'r safle.

### **SAFLE HONEY CLUB, Y RHYL – DIDDORDEB DATBLYGWR A GORCHYMYN PRYNU GORFODOL AR EIDDO CYFAGOS**

Cyflwynodd y Cyngorydd P.J. Marfleet yr adroddiad cyfrinachol oedd yn rhoi diweddariad ar ddiddordeb datblygwr yn yr Honey Club, y Rhyl, a gofynnodd i'r Cabinet gymeradwyo creu panel argymell i benderfynu ar y partner datblygu mwyaf ffafriol. Rhoddodd y Cyngorydd Marfleet fanylion y cynigion oedd wedi'u cyflwyno ar gyfer datblygu'r safle ac eglurodd y pryderon oherwydd statws cadwraeth yr adeilad.

Trafododd y Cabinet yr opsiynau'n ymwneud â chadwraeth yr adeilad a phwysleisiwyd yr angen am frysio gyda'r broses o wneud penderfyniad. Yn dilyn trafodaeth am y broses o roi cymeradwyaeth derfynol i'r partner datblygu mwyaf ffafriol, cytunodd y Cabinet y dylid sefydlu panel argymell i enwi'r partner datblygu mwyaf ffafriol fel y nodwyd yn yr adroddiad. Byddai'r Aelod lleol yn cael ei enwi o fewn cyfansoddiad arfaethedig y panel i'w benderfynu gan y Grŵp Aelodau Ardaloedd a byddai'r Aelod Arweiniol Adfywio'n eistedd ar y panel hefyd. Byddai argymhelliad y panel yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cabinet ar 24 Ebrill. Yn y cyfarfod hwn, bydd y Cabinet yn penderfynu sut i symud ymlaen ac a ddylai'r penderfyniad i gymeradwyo'r partner datblygu mwyaf ffafriol gael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr.

**PENDERFYNWYD** –

a) bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig i sefydlu panel argymell i ystyried y ceisiadau gan y datblygwyr;

b) y byddai cyfansoddiad y panel argymell yn unol â'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad;

- c) *mai'r Grŵp Aelodau Ardaloedd Lleol fyddai'n penderfynu pa aelod lleol oedd i eistedd ar y panel;*
- d) *y byddai'r panel argymhell hefyd yn cynnwys yr Aelod Arweiniol Adfywio; ac*
- e) *y byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cabinet lle bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â sut i symud ymlaen.*

## **PROSIECT GWASTRAFF BWYD RHANBARTHOL – NEWID Y DEWIS O GYNIGYDD**

Cyflwynodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill adroddiad cyfrinachol yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i fynd yn ôl at y cynigydd wrth gefn ar gyfer y Prosiect Bwyd Rhanbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru os na fydd y cynigydd a ffefrir yn gallu cael arian erbyn y dyddiad cau, sef 30 Mawrth 2012. Eglurwyd y byddai'r contract wrth gefn yn ddrutach na'r contract gyda'r cynigydd cyntaf a ffefrir ond bod y cynigydd wrth gefn wedi cael yr arian yn barod ac y byddai'r gost yn dal yn llai nag am ddefnyddio safleoedd tirlenwi.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo cael gwared â'r cynigydd a ffefrir os na fydd wedi cael arian erbyn y dyddiad cau, a bod y cynigydd wrth gefn yn cymryd ei le.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12:10pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i'r: CABINET**

**Dyddiad y Cyfarfod: 24ain Ebrill 2012**

**Aelod Arweiniol Cabinet: Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill**

**Swyddog Arweiniol: Paul McGrady, Pennaeth Cyllid ac Asedau**

**Teitl: Adroddiad Cyllid**

## **1 Beth yw byrdwn yr adroddiad?**

Mae'r adroddiad yn rhoi datganiad diwedd y flwyddyn rhagolygon cyllideb refeniw a pherfformiad o ran strategaeth y gyllideb ar gyfer 2011/12 yn unol â'r sefyllfa ar ddiwedd Mawrth 2012. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## **2 Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?**

Mae'r adroddiad yn hysbysu'r aelodau o'r rhagolygon ariannol diweddaraf er mwyn cyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd ar gyfer 2011/12 fel y'i diffinnir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol, y Cynllun Cyfalaf ar Cynllun Busnes Stoc Dai.

## **3 Beth yw'r Argymhellion?**

Bod yr Aelodau'n cydnabod y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd o ran y strategaeth gyllidebol a gytunwyd.

## **4 Manylion yr adroddiad**

Cyflwynir rhagolygon diweddaraf y gyllideb refeniw yn **Atodiad 1** ac mae'n dangos tanwariant net o £841k ar wasanaethau'r cyngor (£846k y mis diwethaf) ynghyd â £500k ar gyllidebau corfforaethol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer llithriant yn nharged arbedion eleni o £300k. Mae amrywiadau o fewn rhai gwasanaethau o gymharu â'r rhagolygon gwreiddiol ond mae'r rhain yn cael eu rheoli gan y gwasanaethau.

Mae'r sefyllfa mewn perthynas ag ysgolion yn dangos gorwariant o £350k (£505k y mis diwethaf). Dangosir isod fanylion pellach perfformiad cyllidebol adrannol. Cynhwysir crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai hefyd yn Atodiad 1 er gwybodaeth, ond mae hon yn gronfa ar wahân ac nid yw'n rhan o gyllideb refeniw'r Cyngor.

Mae **Atodiad 2** i'r adroddiad yn rhoi diweddariad yn dangos cynnydd mewn perthynas ag arbedion a phwysau a gytunwyd fel rhan o broses pennu cyllideb 2011/12. I gyd, cytunwyd ar arbedion o £6.359m ac mae £6.163m

(97%) wedi ei gyflawni gyda £0.136m (2%) yn cael ei gyfrif fel eitemau 'ar y gweill'. Mae'r eitemau 'ar y gweill' yn rhai na ellir eu cadarnhau nes cwblheir y dadandsoddiad ar ddiwedd y flwyddyn, er y dylid cyflawni'r cwbl neu, os na chânt eu cyflawni, eu hailosod.

## 5 **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i'r gweithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## 6 **Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?**

Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn cael ei defnyddio i amlygu unrhyw amrywiadau allweddol o dargedau cyllideb neu arbedion, risgiau neu arbedion posibl ychwanegol a all godi trwy gydol y flwyddyn ac yn rhoi diweddariad mwy cyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai.

**Cyllideb Refeniw** – Mae'r gyllideb refeniw ar gyfer gwasanaethau ar ddiwedd Mawrth yn dangos rhagolygon tanwariant o £841k (£846k y mis diwethaf). Mae hyn yn cynrychioli amrywiad o lai na 1% ar gyllideb gros o bron i £148m. Mae hefyd tanwariant yn rhai o'r cyllidebau corfforaethol. Mae'r amrywiad cyfan ychydig mwy nag 1% ar gyllideb gros o bron i £208m. Nodir y manylion isod:

Mae'r tanwariant mewn **Cynllunio Busnes a Pherfformiad** yn bennaf yn ymwneud â'r gyllideb ar gyfer gweinyddu grant Cymorth a'r grant bresennol yn dod i ben.

Adroddir tanwariant bychan o £10k mewn **Hamdden, Llyfrgelloedd a Datblygu Cymunedol** o ganlyniad i oedi wrth lenwi swyddi gweigion.

Rhagwelir tanwariant o £20k yn y gyllideb **Cyllid ac asedau**, yn gyffredinol oherwydd swyddi gweigion.

**Menter Cyllid Preifat** – lluniwyd model achos busnes gwreiddiol MCP gan ddefnyddio cyfraddau llog llawer uwch na'r rhai y mae'r cyngor yn eu cael ar hyn o bryd, neu'n debygol o'u cael yn y tymor canol. Roedd y model yn tybio y gellid cael buddsoddiad ym mlynnyddoedd cynnar y prosiect a fyddai'n rhoi enillion digonol i ariannu costau yn y blynnyddoedd diweddarach. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud, felly, i sicrhau nad oes bwch ariannu mewn blynnyddoedd i ddod.

**Priffyrdd a Seilwaith** – yn dangos rhagolygon o £242k mewn tanwariant (£264k y mis diwethaf). Mae gwariant is ar gyllidebau cynnal a chadw yn y gaeaf wedi cyfrannu tuag at y sefyllfa gyffredinol eleni.



Mae'r adran **Adfywio, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** yn rhagweld tanwariant o £175k (£215k y mis diwethaf). Mae'r symudiad y mis hwn yn ymwneud â gwariant ychwanegol ar gyllideb Y Rhyl yn Symyd Ymlaen a chynnwys rhai costau untro dileu swyddi.

**Gwasanaethau Oedolion** - dangosir cyllidebau fel rhai cytbwys ond gan dybio y bydd rhyw £170k mewn grant Cefnogi Pobl (£171k y mis diwethaf) yn cael ei ddefnyddio i ariannu pwysau yn y flwyddyn. Roedd hyn yn rhan o strategaeth a gytunwyd yn yr her gwasanaeth yn 2010 i reoli pwysau costau yn y flwyddyn. Fodd bynnag, bydd y cymhorthdal gan Gefnogi Pobl yn gostwng yn 2012/13 ac yn y pen draw yn diflannu ac felly bydd angen delio â'r pwysau yn y tymor canol. Mae'r alldro fel y rhagwelir fodd bynnag yn y flwyddyn hon yn caniatáu cynyddu cronfa Cefnogi Pobl ond nid yw'n debygol y bydd hyn yn digwydd yn y dyfodol.

Mae'r **Gwasanaeth Plant a Theuluoedd** yn rhagweld tanwariant o £159k (£122k y mis diwethaf). Mae nifer o resymau am y newid y mis hwn gan gynnwys lleoliad arbenigol yn dod i ben yn gynt na'r disgwyl, arbedion ar swyddi gweigion a chostau adnewyddu cyfrifiaduron personol yn is na'r hyn a ragwelwyd.

**Gwasanaethau yr Amgylchedd** – Mae'r adran yn rhagweld tanwariant o £59k (£82k y mis diwethaf). Mae'r newid oherwydd pwysau newydd ar gyllideb Cyfleusterau Arfordirol o ganlyniad i fethu â chyflawni'r targed incwm ar gyfer rhent ar Bentre'r Plant.

Mae targedau arbedion o few **Gwasanaethau Cwsmeriaid** yn dod i £271k eleni. O hyn, mae £126k yn ymwneud ag arbedion effeithlonrwydd caffaeliad ac yn unol â'r targed. Gellir ei asesu'n fwy effeithiol gan fod gwariant gwirioneddol ar nwyddau traul yn cael ei adolygu ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir tanwariant o £60k yn y gyllideb adrannol oherwydd oedi wrth recriwtio. Os bydd balansau adrannol yn cael eu cario trosodd, cynigir defnyddio peth fuddsoddi yn y mewnrwyd yn 2012/13.

Mae gwariant ar **gyllideb corfforaethol** (gan gynnwys taliadau banc, ffioedd archwilio a chyllidebau ôl-ariannu) wedi bod yn llai na'r disgwyl a dylai hyn gynhyrchu tanwariant o £200k. Mae cyfraddau casglu ar **dreth y cyngor** wedi aros yn uchel eleni, a gaiff effaith gadarnhaol ar arenillion ddiwedd y flwyddyn a bydd yn cynhyrchu gwarged arian. Fodd bynnag, mae diwygiad ym mudd-daliadau'r dreth gyngor yn debygol o ostwng cyfraddau casglu mewn blynyddoedd i ddod a gaiff effaith ar yr adnoddau sydd ar gael i'r cyngor a byddai'n ddoeth gwneud peth darpariaeth i helpu rheoli'r effaith.

**Ysgolion** – Tybir nawr y bydd y symudiad yng ngyllidebau'r ysgolion yn ostyngiad mewn balansau cyffredinol o £350k (£505k y mis diwethaf). Mae'r sefyllfa'n cynnwys saith o ysgolion mewn anhawster ariannol. Gofynnir i ysgolion mewn sefyllfa o ddiffyg tebygol gyflwyno cynigion i gael cyllideb gytbwys. Bydd ysgolion gyda gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn yn cario'r diffyg ymlaen.

**Cynllun Cyfalaf-** Yr alldro a ragwelir yw £34.2m. Mae **Atodiad 3** yn dangos crynodeb o'r cynllun presennol a sut caiff ei ariannu. Yn **Atodiad 4** rhoddir diweddariad ar y prosiectau mawrion.

**Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** – Mae'r rhagolygon CRT diweddaraf yn dangos diffyg yn y flwyddyn a gynlluniwyd o £1.306m (£1.109m y mis diwethaf) yn erbyn cyllideb wreiddiol o £1.025m. Mae'r diffyg a ragwelir ar hyn o bryd £281k yn uwch na'r gyllideb wreiddiol. Mae'r diffyg a gynlluniwyd yn y flwyddyn yn deillio gan fod £1.3m o'r gyllideb refeniw i'w ddefnyddio i ariannu gwariant cyfalaf fel rhan o'r Cynllun Busnes Stoc Dai ar gyfer 2011/12. Mae'r Cynllun Busnes yn aros yn ymarferol ac yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf, balans y CRT i'w gario trosodd fydd £703k (£899k y mis diwethaf).

Mae'r prif symudiad y mis hwn yn ymwneud â'r gyllideb Trwsio a Chynnal a Chadw lle mae rhagolygon gwariant wedi cynyddu £200k. Mae hyn oherywdd nifer o faterion, gan gynnwys cost ychwanegol contract gwasanaethu nwy newydd ac ariannu costau straen pensiwn yn y flwyddyn. Hefyd mae gwariant untro ychwanegol a fuddsoddwyd tua diwedd y flwyddyn wrth leihau'r gwaith trwsio a chynnal a chadw a oedd wedi cronni. Daeth y gwaith ychwanegol hwn i ryw £100k a bydd yn helpu sicrhau bod y gwaith sydd wedi hel yn cael ei gadw ar lefel haws ei rheoli yn y dyfodol. Mae'r gyllideb CRT yn cael eu hadolygu ar gyfer 2012/13 gydag agwedd seiliedig ar sero yn cael ei chyflwyno a chyfrif masnachu tybiannol yn cael ei gyflwyno yn yr elfen Trwsio a Chynnal a Chadw er mwyn monitro costau a pherfformiad yn agosach.

Mae rhagolygon alldro y Cynllun Cyfalaf Tai wedi cynyddu i £5.607m (£5.354m a adroddwyd y mis diwethaf) o gymharu â'r amcangyfrif a gyllidebwyd o £5.969m ar gyfer y flwyddyn. Mae'r cynnydd yn bennaf oherwydd hepgoriadau a ad-drefnwyd a gwaith wedi ei ddwyn ymlaen o Grwpiau Gwella 6, 7 ac 8, a oedd i ddechrau yn 2012/2013. Mae cyflawni Ansawdd Safon Tai Cymru erbyn 2012/13 yn parhau i fod ar y llwybr priodol ac nid yw'r rhagolygon gwariant diweddaraf yn effeithio hyfywedd y Cynllun Busnes Stoc Dai. Cwblhewir arolwg cyflwr stoc manwl yn 2012/13 a bydd hyn yn helpu bwydo gwybodaeth i'r tybiaethau buddsoddi cyfalaf a chynllunio busnes i'r dyfodol.

Dangosir crynodeb o sefyllfa ddiweddaraf y CRT yn y tabl isod.

***Crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf:***

| <b><u>Crynodeb Cyfrif Refeniw Tai 2011/12</u></b> |              |
|---|--------------|
| <b><u>Mawrth 2012</u></b>                         |              |
| <b>Gwariant</b>                                   | <b>£'000</b> |
| Rheoli a Chynnal a Chadw Tai                      | 5,576        |
| Taliadau Cyfalaf                                  | 2,591        |
| Cymhorthdal                                       | 3,079        |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg                | 26           |

|                                     |               |
|-------------------------------------|---------------|
| Cyfraniad Refeniw i Gyfalaf         | 1,341         |
| <b>Cyfanswm Gwariant</b>            | <b>12,613</b> |
| <b>Incwm</b>                        |               |
| Rhenti                              | 11,143        |
| Modurdai                            | 155           |
| Llogau                              | 9             |
| <b>Cyfanswm Incwm</b>               | <b>11,307</b> |
| <b>Diffyg yn y flwyddyn</b>         | <b>1,306</b>  |
| <b>Balans CRT a gariwyd trosodd</b> | <b>703</b>    |

| <b>Cynllun Cyfalaf Tai</b> |              |
|----------------------------|--------------|
| <b>Mawrth 2012</b>         |              |
|                            | <b>£,000</b> |
| Gwariant a Gynlluniwyd     | 5,607        |
| <b>Ariannwyd gan:</b>      |              |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr  | 2,400        |
| Cyfraniad Refeniw          | 1,341        |
| Derbynebaw Cyfalaf         | 65           |
| Benthyca Darbodus          | 1,801        |
| <b>Cyfanswm</b>            | <b>5,607</b> |

## 7 Pa ymgynghori a fu?

Argymhellwyd y gyllideb refeniw gan y Cabinet a'i chytuno'n ffurfiol gan y Cyngor ar ôl cyfres o heriau gwasanaeth. Cymeradwywyd y cynllun cyfalaf gan y Cyngor ar ôl gwaith craffu gan y Grŵp Strategaeth Cyfalaf ac Asedau (a elwir nawr y Grŵp Buddsoddi Strategol) ac argymhelliad gan y Cabinet. Cymeradwywyd y Cyfrif Refeniw Tai ar ôl ymgynghori ag aelodau etholedig a chynrychiolwyr ffederasiwn y tenantiaid.

## 8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r sefyllfa alldro a ragwelir yn un a groesewir ac yn dangos bod gwasanaethau yn gweithio tuag at gyflawni cynllun ariannol eleni. Mae cyflawni'r targed arbedion ar gyfer eleni yn llwyddiant arwyddocaol ac mae'r sefyllfa ddiweddaraf yn rhoi llwyfan da i ni sicrhau cwrdd â thargedau'r flwyddyn nesaf. Mae'n bwysig bod gwasanaethau yn parhau i reoli cyllidebau'n ddarbodus, a bod unrhyw warged yn y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canol.

Fel y rhagwelwyd, mae'r sefyllfa gyffredinol wedi parhau i wella ac mae rhan o hyn oherwydd cynnydd sy'n cael ei wneud wrth gyflawni arbedion y flwyddyn

nesaf. Bydd rhai cyllidebau a ddelir yn gorfforaethol ar gyfer darpariaethau penodol sydd wedi eu hymrwymo yn y blynyddoedd i ddod yn cynhyrchu gwarged ariannol yn y flwyddyn hon.

### **Sylwadau Economaidd a Diweddariad ar Reoli'r Trysorlys**

Mae'r marchnadoedd ariannol yn parhau i fod yn gyfnewidiol ac mae hyn yn parhau i gyfyngu nifer y sefydliadau y gall y Cyngor fuddsoddi gyda hwy. Yn gynharach yn y flwyddyn penderfynodd y Cyngor gyfyngu holl fuddsoddiadau i chwe mis fel mesur darbodus. Gan fod sgoriau rhai banciau'r DU wedi eu hisraddio wedi hynny, rhaid oedd newid strategaeth trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn a chyfyngwyd arian cadw gyda banciau'r DU i fis. Mae hyn nawr wedi ei ymestyn i 90 diwrnod. Mae'r Cyngor yn ystyried opsiynau trwy'r amser i sicrhau bod buddsoddiadau'n ddiogel tra hefyd yn ceisio cael yr enillion mwyaf rhesymol posibl dan yr amgylchiadau.

Oherwydd costau benthyca is na'r disgwyl eleni, bydd gwarged yn y gyllideb ariannu cyfalaf. Mae hyn oherwydd nad oedd angen benthyca ychwanegol fel y cynlluniwyd yn wreiddiol. Defnyddir hwn i ad-drefnu dyledion cyn diwedd y flwyddyn ariannol a bydd yn rhoi gostyngiad bychan yng nghostau benthyca cyffredinol y Cyngor.

Mae cyfanswm benthyciadau ar hyn o bryd yn £136m ar raddfa o 5.73% ar gyfartaledd a chyfanswm buddsoddiadau yn £27.0m ar gyfradd o 1.45% ar gyfartaledd.

### **9 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu â chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn rhoi pwysau pellach ar y gwasanaethau yn y flwyddyn ariannol hon ac i'r dyfodol. Bydd monitro'r gyllideb yn rheolaidd ac adrodd yn fuan am unrhyw amrywiad yn helpu sicrhau cyflawni'r strategaeth ariannol.

Mae risgiau penodol yn amlwg wrth ddelio â phrosiectau cyfalaf a gall gynnwys gwariant neu redeg dros amser, problemau ariannu ac ystyriaeth anariannol eraill. Mae mecanwaith cymeradwyo cadarn a gwaith monitro ac adrodd ariannol manwl, ynghyd â threfniadau rheoli prosiect effeithiol, yn helpu lleihau'r risgiau hyn.

Mae'r CRT yn ymgymryd â buddsoddiad cyfalaf sylweddol i wella'r stoc dai ac yn defnyddio benthyciadau a grantiau i ariannu'r gwaith. Rhaid i unrhyw fenthyciad fod yn fforddiadwy ac mae gwaith monitro rheolaidd a chymeradwyo ac asesiad hyfywedd blynyddol y Cynllun Busnes Stoc Dai yn sicrhau bod hyn yn wir.

### **10 Pŵer i gymryd y Penderfyniad**

Mae gofyn i awdurdodau lleol, dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Appendix 1

## DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL REVENUE BUDGET MONITORING REPORT 2011/12

| Forecast as at 31/03/2012                      | Budget         |                |                | Projected Outturn |                 |                | Variance     |               |               | Net           | Variance Previous Report |
|--|----------------|----------------|----------------|-------------------|-----------------|----------------|--------------|---------------|---------------|---------------|--------------------------|
|  | Expenditure    | Income         | Net            | Expenditure       | Income          | Net            | Expenditure  | Income        | Net           |               |                          |
|  | £'000          | £'000          | £'000          | £'000             | £'000           | £'000          | £'000        | £'000         | £'000         | %             | £'000                    |
| Business Planning & Performance                | 1,195          | -224           | 971            | 1,312             | -438            | 874            | 117          | -214          | -97           | -9.99%        | -100                     |
| Legal & Democratic Services                    | 2,086          | -538           | 1,548          | 2,279             | -745            | 1,534          | 193          | -207          | -14           | -0.90%        | 0                        |
| Finance & Assets                               | 14,538         | -7,412         | 7,126          | 14,955            | -7,849          | 7,106          | 417          | -437          | -20           | -0.28%        | -20                      |
| Highways & Infrastructure                      | 20,080         | -9,401         | 10,679         | 19,885            | -9,448          | 10,437         | -195         | -47           | -242          | -2.27%        | -263                     |
| Planning, Regeneration & Public Protection     | 5,765          | -1,949         | 3,816          | 5,566             | -1,925          | 3,641          | -199         | 24            | -175          | -4.59%        | -215                     |
| Adult & Business Services                      | 44,730         | -13,004        | 31,726         | 43,884            | -12,158         | 31,726         | -846         | 846           | 0             | 0.00%         | 0                        |
| Children & Family Services                     | 9,904          | -1,105         | 8,799          | 9,853             | -1,213          | 8,640          | -51          | -108          | -159          | -1.81%        | -122                     |
| Housing Services                               | 1,624          | -1,236         | 388            | 1,616             | -1,228          | 388            | -8           | 8             | 0             | 0.00%         | 8                        |
| Leisure, Libraries & Community Development     | 10,272         | -4,675         | 5,597          | 11,373            | -5,786          | 5,587          | 1,101        | -1,111        | -10           | -0.18%        | -12                      |
| Strategic HR                                   | 1,647          | -370           | 1,277          | 2,096             | -824            | 1,272          | 449          | -454          | -5            | -0.39%        | 0                        |
| Customer Services                              | 3,857          | -876           | 2,981          | 4,100             | -1,179          | 2,921          | 243          | -303          | -60           | -2.01%        | -40                      |
| Environment                                    | 19,650         | -8,219         | 11,431         | 19,621            | -8,249          | 11,372         | -29          | -30           | -59           | -0.52%        | -82                      |
| Modernising Education                          | 1,336          | 0              | 1,336          | 1,341             | -5              | 1,336          | 5            | -5            | 0             | 0.00%         | 0                        |
| School Improvement & Inclusion                 | 11,225         | -6,678         | 4,547          | 11,585            | -7,038          | 4,547          | 360          | -360          | 0             | 0.00%         | 0                        |
| <b>Total Services</b>                          | <b>147,909</b> | <b>-55,687</b> | <b>92,222</b>  | <b>149,466</b>    | <b>-58,085</b>  | <b>91,381</b>  | <b>1,557</b> | <b>-2,398</b> | <b>-841</b>   | <b>-0.91%</b> | <b>-846</b>              |
| Corporate                                      | 42,699         | -36,671        | 6,028          | 42,499            | -36,671         | 5,828          | -200         | 0             | -200          | -3.32%        | -100.00                  |
